| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **2 Mawrth 2017** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **TEITL:** | **ADOLYGIAD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU** |
| **AMCAN:** | **Sicrhau caniatâd gan y Cyngor i swyddogion weithredu ar lunio cynigion drafft ar gyfer y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn y cyfnod cyn yr etholiad er mwyn cwrdd ag amserlen heriol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Sion Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |

**CRYNODEB**

1. Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal arolwg rheolaidd o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi ein hysbysu ei fod am gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Gwynedd yn awr, gyda'r bwriad o ystyried a llunio cynigion ar gyfer trefniadau yn y dyfodol, i'w gweithredu ar adeg yr etholiadau llywodraeth leol a fwriedir ar gyfer 2022.

2. Gwahoddwyd yr holl Aelodau i fynychu cyfarfod agoriadol gyda Chomisiwn Ffiniau Cymru ar y 9fed o Chwefror 2017, lle cafwyd esboniad o'r gofynion, trefniadau, methodoleg, y rhaglen waith a'r amserlen. Esboniwyd y byddai'r Comisiwn yn croesawu sylwadau'r Cyngor cyn iddynt lunio eu 'Cynigion Drafft' hwy, yn arbennig hoffent i'r Cyngor gyflwyno cynllun neu gynlluniau i'w hystyried ar gyfer rhanbarthau etholiadol yn seiliedig ar y cymunedau a'r wardiau cymunedau presennol. Nodwyd eu bod mewn trafodaeth gyda'r Cyngor ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflawni hynny.

3. Teg yw nodi fod y sefyllfa yn eithaf anghyffredin. Ar y naill law, blaenoriaethwyd yr adolygiad yng Ngwynedd gan y Gweinidog gan fod Gwynedd eisoes wedi cael arolwg tebyg yn 2012 (ond ni weithredwyd arno gan y gweinidog blaenorol). Ar y llaw arall, mae'r amserlen wreiddiol sydd wedi ei gosod ar gyfer cyflwyno cynigion i'r Comisiwn ym mis Mai yn afrealistig yn wyneb y ffaith fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda'r Cyfnod Etholiad yn cychwyn ar 17 Mawrth. Yn annatod bydd angen sylwadau yr aelodau etholedig newydd hefyd yn y broses hon.

4. Ystyrir felly fod dau ddewis gan y Cyngor;

   a) ceisio cyfaddawdu gyda'r Comisiwn Ffiniau a'r amserlen ar gyfer cyflwyno cynigion drafft cychwynnol.

b) Peidio â chyflwyno unrhyw gynigion i'r Comisiwn Ffiniau yn unol â'r amserlen, gan ddisgwyl am eu cynigion hwy yn unig.

5. Er mwyn gweithredu yn rhagweithiol a gweithredu cynnig 4a), mae swyddogion wedi edrych ar y posibiliadau o greu rhaglen waith synhwyrol fyddai'n rhoi cyfle teg i Aelodau'r Cyngor newydd gynnig sylwadau gan hefyd ateb gofynion y Comisiwn Ffiniau o ran amserlen. 'Rydym wedi cael ar ddeall y byddai modd i'r cyngor gyflwyno cynigion iddynt erbyn canol Mehefin, er mai diwedd Mai yw'r dyddiad cau swyddogol a gyhoeddwyd ganddynt

6. I weithredu opsiwn 4a), bydda'n golygu fod swyddogion yn mynd ati yn y cyfnod cyn etholiad i lunio cynigion drafft cychwynnol. Mae modd talu sylw i'r sylwadau a gyflwynwyd i'r adolygiad yn 2012 fel sail i hynny.

7. Y cam dilynol fyddai ymgynghori gydag aelodau y Cyngor newydd ar y cynigion drafft yn fuan ym mis Mai 2017. Y bwriad wedyn fyddai adrodd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod yn fuan ym mis Mehefin 2017 fel y gall benderfynu ar y cynigion i'w cyflwyno i'r Comisiwn.

8. Un o wendidau mawr cynigion 2012 ym marn y Cyngor oedd y cynnydd yn y nifer o ranbarthau etholiadol aml-aelod. Felly, petai'r Cyngor am edrych ar ranbarthau o'r fath ac unrhyw sylwadau eraill ar yr arolwg arfaethedig, efallai y bydd angen i swyddogion drafod posibiliadau gyda'r aelodau yn y rhanbarthau hynny a gyda'r cynghorau cymuned perthnasol,. Mae hyn oll os yw'n bosib oherwydd bod y cyfnod etholiad yn rhedeg ar draws y cyfnod ymgynghori.

9. O ddilyn opsiwn 4b), sef peidio argymell cynigion drafft cychwynnol i'r Comisiwn ein hunain, byddai'r Cyngor yn agored i sefyllfa o risg o fethu'r cyfle i gyflwyno dadleuon llawn a gorfod derbyn cynigion y Comisiwn, fyddai, efallai, ddim yn seiliedig ar yr un dealltwriaeth lleol o'r ardal.

10. Argymhellir felly fod y Cyngor yn gweithredu'n rhag-weithiol er mwyn cynnig cynigion i'r Comisiwn o fewn amserlen arfaethedig i'w gytuno gyda hwy. Bydd angen caniatâd y Cyngor i ddilyn y camau a nodir isod er mwyn gweithredu fel a ganlyn:

    - Cyfnod cyn etholiad: swyddogion i greu cynigion drafft ac ymgynghori (lle bo'r angen a lle mae modd oherwydd yr amserlen) gydag aelodau a chynghorau cymuned perthnasol
    - Rhannu'r cynigion drafft gyda holl aelodau'r Cyngor newydd yn dilyn yr etholiad
    - Y Pwyllgor Archwilio (fel y corff sy'n gyfrifol am lywodraethu) i edrych ar y cynigion a'r sylwadau gan aelodau ac i benderfynu ar yr argymhellion drafft i'w cyflwyno i'r Cyngor
    - Y Cyngor Llawn ym Mehefin 2017 i benderfynu ar y cynigion i'w cyflwyno i'r Comisiwn